

theurbanists

theurbanists

Paratowyd gan: The Urbanists

Cyfeiriad: **Cardiff**
Westgate House
11 Womanby Street
Cardiff, CF10 1BR

Bristol
Studio 410, Generator Building
Finzels Reach
Bristol, BS1 6BX

E-bost: info@theurbanists.net

Gwefan: www.theurbanists.net

Dyddiad cyhoeddi: 2025.10.17

Statws y Ddogfen: TERFYNOL

Adolygiad: E

Awdur: ET, SY, FV, JD & LH

Gwiriwyd gan: JD & LH

Ar ran:



All plans within this document are reproduced from Ordnance Survey with permission of the controller of His Majesty's Stationary Office (C) Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution/civil proceedings. Licence No 100054593.





Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon i gyd-fynd ag amcanion menter cyllid Trawsnewid Trefi, sy'n darparu cymorth hanfodol i adfywio canol trefi Cymru. Fel

fframwaith ar gyfer buddsoddiad a datblygiad yn y dyfodol, nod y ddogfen hon yw rhoi Dinbych mewn sefyllfa i gael mynediad at adnoddau Trawsnewid Trefi yn effeithiol wrth wasanaethu fel arf i ddatgloi cyfleoedd cyllido ychwanegol o ffynonellau eraill.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi cael ei ddatblygu gyda phwyslais ar fynd i'r afael â'r angen economaidd lleol, a oedd yn benderfynydd allweddol wrth ddewis trefi fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Cynlluniau Creu Lleoedd. Mae heriau a chyfleoedd unigryw Dinbych

wedi cael eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau bod y cynllun hwn yn weledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn ganllaw strategol ar gyfer gwelliannau uniongyrchol a hirdymor.

Mae'r cynllun hwn yn cydymffurfio'n llawn gydag egwyddorion a chanllawiau a amlinellwyd yn y ddogfen 'Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer Canol Trefi', a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Llywodraeth Cymru. Trwy lynu at y safonau hyn, mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn sicrhau aliniad gyda strategaethau ac amcanion cenedlaethol, gan feithrin dull integredig i adfywio canol trefi.





01

**Cynlluniau Creu Lleoedd:
Cyflwyniad**


Y Dref

Mae Dinbych yn brif anheddiad y Sir fel cyrchfan gwasanaethau a manwerthu ar gyfer y gymuned leol ac yn lleoliad gwaith ar gyfer perchnogion busnes lleol. Fel un o'r trefi mwyaf yn y Sir, mae Dinbych hefyd yn chwarae rhan strategol, bwysig gyda'i gynnig gwasanaethau a manwerthu hefyd yn helpu i gefnogi hyfywedd parhaus y cymunedau sy'n byw yng nghanol Sir Ddinbych.

Fel nifer o drefi ar draws Cymru a'r DU, mae Dinbych wedi wynebu heriau mawr yn y blynyddoedd diwethaf; mae cystadleuaeth gynyddol o ran manwerthu tu allan i'r dref yn rhanbarth ehangach Gogledd Cymru a chynnydd parhaus mewn manwerthu ar-lein wedi cystadlu'n gryf yn erbyn pryniannau traddodiadol ar y stryd fawr. Gwaethygodd hyn yn sgil pandemig Covid-19 a wnaeth amgylchedd masnachol a oedd eisoes yn anodd ar gyfer busnesau'r stryd fawr yn waeth, gan gau mwyafrif y stryd fawr am gyfnodau hir a thorri nifer o fusnesau oddi wrth eu cwsmeriaid ffyddlon.

Mae Dinbych yn dref hanesyddol wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru, ac mae'n arwyddocaol fel un o'r trefi caerog a gomisiynwyd gan Edward I. Yn codi uwchlaw'r dyffryn, gyda'i chastell canoloesol, mae Dinbych wedi gweld dirywiad graddol yn ei safle cymdeithasol ac economaidd. Ar y cyd, mae mwyafrif o'i dreftadaeth bensaernïol wedi dirywio hefyd.

Er mwyn helpu'r dref i adfer a ffynnu, paratowyd Cynllun Creu Lleoedd Dinbych. Mae'r cynllun yn cynnig gweledigaeth bwrpasol ar gyfer Dinbych, yn seiliedig ddyheadau'r preswylwyr, busnesau a'r Cyngor. Mae'n nodi ein dyheadau ar gyfer canol y dref, yn unol â Siarter Creu Lleoedd Cymru ac yn egluro'r math o ymyraethau pwrpasol a geisir ac y darperir er mwyn sicrhau bod dyheadau'r dref yn cael eu cyflawni.



Mae Sir Ddinbych yn dref farchnad yng nghanol Sir Ddinbych yng ngogledd Cymru. Mae wedi'i leoli i orllewin Afon Clwyd

Ac oddeutu 10 milltir (16km) o'r de o'r Rhyl. Gwasanaethir y dref trwy'r A543 a'r A525 sy'n darparu cysylltiadau i'r Gogledd, De a'r Gorllewin i Lansannan, Llanellw y Rhuthun.

Pwysigrwydd yn y Sir


Mae Dinbych wedi'i leoli yn ganolog o fewn y Sir yn agos at Dirwedd Genedlaethol bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sy'n rhedeg ar hyd y Sir.

Mae'r dref a'i rhwydwaith cludiant amgylchynol wedi'i ogwyddo ar hyd y llwybrau gogledd-de, gan adlewyrchu cymeriad topograffig yr ardal. Mae'r A543 a'r A525 n ffyrdd gogledd-de nodedig sy'n cysylltu Dinbych gyda threfi cymdogol a prif lwybrau. Mae'r A525 yn cysylltu Dinbych gyda Rhuthun i'r de ac yn cysylltu gyda Gwibffordd yr A55, gan ddarparu mynediad at yr ardaloedd arfordirol a dinasoedd mawr megis Caer a'r gogledd ddwyrain.

Er bod cysylltiad priffordd dwyrain-gorllewin yn gyfyngedig yn sgil hanes a daearyddiaeth yr ardal, mae Dinbych yn manteisio ar ei leoliad strategol ar hyd llwybrau allweddol. Mae'r A525 a'r A543 yn hwyluso mynediad i'r canolbwyntiau rhanbarthol a ffyrdd prifwythiennol, gan wella cysylltedd ar gyfer preswylwyr a busnesau.

Mae gan Ddinbych dreftadaeth ddiwylliannol a hanes cyfoethog, gyda thrinodau megis Castell Dinbych a Chapel Sant Hilari yn denu twristiaid ac yn cynnal treftadaeth y dref. Mae gwyliau, digwyddiadau a sefydliadau diwylliannol y dref hefyd yn cyfrannu tuag at ei rôl fel canolbwynt diwylliannol o fewn Sir Ddinbych.

Fel anheddiad allweddol o fewn Sir Ddinbych, mae Dinbych yn gwasanaethu fel canolbwynt ar gyfer yr aneddiadau amgylchynol, gan gynnig ystod o wasanaethau ac amwynderau. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau manwerthu, diwylliannol a gweinyddol nad ydynt ar gael yn y cymunedau cymdogol llai. Mae rôl y dref fel canolfan wasanaethau yn hanfodol ar gyfer datblygiad a thwrf y rhanbarth, gyda chynlluniau mewn lle i wella ei gysylltiad ac isadeiledd ymhellach.



Polisi Cenedlaethol

Mae Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn nodi creu lleoedd fel ffordd o gynyddu lles a chreu lleoedd cynaliadwy. Mae creu lleoedd yn ddull cyfannol i gynllunio a dylunio datblygiad sy’n ystyried cyfleoedd datblygu’n gyfannol yng nghyd-destun yr ardal leol, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn cefnogi’r gymuned orau. Yn y ffordd hon mae creu lleoedd yn sicrhau dyluniad a darpariaeth datblygiad sy’n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a lles pobl yn ei synnwyr ehangach.

Mae creu lleoedd yn broses statudol yng Nghymru ac yn tanategu penderfyniadau er mwyn sicrhau bod datblygiad a buddsoddiad newydd yn adeiladu ar, ac yn gwella’r synnwyr o le yn ein tref ac aneddiadau ehangach. Mae angen cynlluniau mewn lle er mwyn cael mynediad at gyllid Trawsnewid Trefi.

I gydnabod rôl bwysig creu lleoedd, mae Siarter Creu Lleoedd Cymru wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru ac yn adlewyrchu ymrwymiad gan y rhai sy’n ymarfer datblygu, dylunio ac adfywio, i gefnogi’r datblygiad o leoedd o safon uchel.

Mae adroddiadau ar iechyd cyffredinol yn dangos gwahaniaethau nodedig ar draws Cymru. Mae Sir Ddinbych yn disgyn o fewn y 68-69 canradd o oedolion 16 oed a hŷn, sy’n adrodd bod ganddynt iechyd da, gan amlygu lle i wella yn y maes hwn.

Mae nodau ehangach o fewn y cynllun cenedlaethol yn cynnwys cynyddu’r defnydd o Gymraeg ar draws Cymru a’i sefydlu fel iaith fyw. Mae data hanesyddol yn dangos nifer uwch o siaradwyr Cymraeg yng ngogledd Sir Ddinbych na de’r Sir, gan amlygu cyfle i gynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn ne Sir Ddinbych i gydbwysu’r gwahaniaeth.

Mae’r cyfrifoldeb am amgylchedd adeiledig Cymru, yn arbennig canol trefi, yn golygu **cyflawni gwytnwch hinsawdd a mynd i’r afael â newid hinsawdd**, fel y pwysleisir yn y cynllun cenedlaethol, ynghyd â **tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru di-garbon net erbyn 2050**. Y ffocws yw creu lleoedd byw, gweithio a hamdden cynaliadwy trwy hyrwyddo teithio llesol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cipio carbon. Mae’r dull hwn yn hanfodol er mwyn gwella gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Mae gan adfywiad Dinbych yn y dyfodol, y potensial i wireddu’r dyheadau canlynol a nodir o fewn y cynllun cenedlaethol:

- Gweithio tuag at aneddiadau sydd â chysylltiad ffisegol a digidol da, gan gynnig ansawdd bywyd da i’r preswylwyr.
- Creu cyfleoedd gwaith a gwella gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig i helpu denu a chadw pobl.
- Cydnabod bod gwahanol rannau o Gymru’n gweithio’n wahanol i’w gilydd, ac ymateb i’w nodweddion a heriau unigryw.
- Ceisio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 - cynnydd o bron i 80% ar y lefelau presennol.
- Sefydlu trefi mawr fel magnet ar gyfer swyddi a buddsoddiad, fel bod pobl yn cael eu denu i fyw a gweithio yno ar gyfer y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol maent yn eu darparu.
- Datblygu cynlluniau sy’n flaengar gydag agwedd gadarnhaol tuag at alluogi datblygiad economaidd, buddsoddiad ac arloesedd.
- Sicrhau bod yr holl ddulliau teithio gydag effeithiau amgylcheddol isel ac allyriadau isel, gyda chynnydd yn y defnydd o gludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel yn hytrach na cherbydau petrol a disel heddiw.
- Gwella darpariaeth band eang a fydd yn helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, gwydn ac arloesol a gwella ffordd o fyw i gymunedau ac unigolion.
- Cydnabod a manteisio ar adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys ei fwynau, pridd a geoamrywiaeth, arfordir, dŵr, coedwigoedd a thirwedd a’u posibilrwydd i gefnogi ystod o weithgareddau a sectorau. Mae’r asedau hyn yn werthfawr yn eu rhinwedd eu hunain.
- Hyrwyddo a darparu cymdeithas gystadleuol, gynaliadwy a di-garbon.

Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach (2024)

Ar 30 Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei ymgynghoriad Papur Gwyn, ‘Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol,

Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach.’Mae’r Papur Gwyn yn cynnig sefydlu egwyddorion amgylcheddol i gyfraith Cymru, gan sefydlu corff llywodraethu i oruchwylio cydymffurfiaeth a chreu fframwaith strategol gyda thargedau bioamrywiaeth ar gyfer adferiad natur. Mae’r mesurau hyn yn tanategu’r angen ar gyfer camau trawsnewidiol,

hirdymor i fynd i’r afael a’r argyfyngau hinsawdd a natur, fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu. Roedd yr ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 30 Ebrill gyda 1,171 o ymatebion, yn amlygu ymgysylltiad cyhoeddus ac fe ddarparodd adborth gwerthfawr. Mae dadansoddiad annibynnol o’r ymatebion wedi cael ei gyhoeddi, ar y cyd ag Ymateb Polisi yn manylu ar y themâu allweddol a chamau’r llywodraeth mewn ymateb i’r mewnbwn a dderbyniwyd. Mae’r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu hinsawdd a natur, gan gynnal safonau amgylcheddol ar ôl Brexit, a meithrin cydweithrediad parhaus gyda budd-ddeiliaid er mwyn siapio cyfeiriad polisi yn y dyfodol.

Cynllun Strategol Sero Net, Llywodraeth Cymru (2021) i ganfod cyfleoedd lleihau carbon ac olrhain y cynnydd tuag at sero net.

Yn 2020-21, lleihaodd Llywodraeth Cymru ei ôl-troed carbon 18% o’i gymharu â 2019-20, yn rhannol yn sgil effeithiau COVID-19 ond hefyd trwy ymdrechion rhagweithiol i leihau effaith amgylcheddol. Mae cynnydd wedi cael ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni, cynyddu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy, optimeiddio gweithrediadau ac ymgysylltu gyda chyflenwyr. Nod y Cynllun Strategol erbyn hyn yw ehangu’r ymdrechion hyn i fodloni targed 2030. Mae targedau datgarboneiddio wedi’u rhannu i ddau gategori; gostyngiadau y gellir eu mesur mewn allyriadau gweithredol a thargedau ansoddol ar gyfer arferion y gadwyn gyflenwi a defnydd tir.

Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15); Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2023)

Mae TAN 15 yn darparu canllaw technegol i gefnogi Polisi Cynllunio Cymru (PCC), gan helpu i fodloni ei ofynion a hyrwyddo’r cread o leoedd cynaliadwy.

Egwyddorion Craidd TAN 15:

- Cyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Cymru ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gefnogi dull yn seiliedig ar risg ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy’n dueddol o brofi llifogydd.

Yn diffinio ‘risg fel:

- Y tebygolrwydd o lifogydd.
- Effaith posibl os yw digwyddiad o’r fath yn digwydd.

Gall ddefnyddio TAN 15 effeithio’n sylweddol ar ddatblygiadau arfaethedig megis Dinbych.

Mae’r pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Cyfngiadau ar Ddatblygiad:** Ni ellir adeiladu llety dros nos ac adeiladau “hynod o fregus” (e.e. cartrefi gofal, ysgolion) ar ardaloedd sy’n dueddol o brofi llifogydd.
- Gofynion o ran Isadeiledd:** Rhaid i ddatblygiadau fod ag isadeiledd llifogydd cadarn a llwybrau mynediad brys sy’n parhau i fod yn weithredol yn ystod llifogydd.
- Cymhlethdodau Cynllunio:** Mae cydymffurfio â TAN15 yn ychwanegu’r angen am asesiadau risg llifogydd, gan arwain at oedi o ran cymeradwyo a chostau cynyddol.
- Effaith ar Ddefnydd Tir:** Gall barthau risg llifogydd gyfyngu ar botensial datblygu, gan effeithio ar hyfywedd prosiect neu’r angen am ddefnydd amgen megis gofodau hamdden neu fasnachol.

Mae TAN15 hefyd yn amlygu cyfleoedd i integreiddio mesurau atgyfnerthu rhag llifogydd, megis isadeiledd gwyrdd a Systemau Draenio Cynaliadwy.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ystyried yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, a gweithio ar y cyd i wella lles Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith Nod Lles i lywio camau gweithredu ac yn nodi sut y dylai cyrrff cyhoeddus weithio.

Mae datblygiad cynaliadwy yn ganolog i'r Ddeddf, ac mae'n seiliedig ar roi'r un flaenoriaeth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae pob agwedd o les yr un mor bwysig â'i gilydd ac mae'n hanfodol bod y pedwar yn cael eu gwella. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod "anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion y dyfodol."

Mae cynaliadwyedd hefyd wrth wraidd polisiâu amgylcheddol a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru. Polisi Adnoddau Naturiol yw ail gynnyrch statudol

Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Canolbwynt y polisi yw rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru, i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni'r nodau o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r polisi'n nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- Darparu datrysiadau'n seiliedig ar natur
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau
- Datblygu dull yn seiliedig ar le

Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru yn gofyn am gynllunio, buddsoddi a datblygu er mwyn creu lleoedd cynaliadwy.

Mae gan leoedd cynaliadwy'r cyfuniad cywir o gartrefi yn y llefydd iawn; yn cynnwys gwasanaethau a chyflogaeth leol; cludiant cyhoeddus rhagorol ac isadeiledd teithio llesol; ac yn wyrdd. Mae polisi cenedlaethol yn nodi eu bod hefyd angen canol trefi defnydd cymysg sy'n bodloni anghenion lleol.


I gydnabod rôl allweddol canol trefi i adeiladu lleoedd cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r egwyddor 'Canol Tref yn Gyntaf' sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl fuddsoddiadau a chynigion masnachol, manwerthu, addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus mawr newydd, gael eu lleoli yng nghanol trefi. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r **Rhaglen Ariannu Trawsnewid Trefi**, er mwyn galluogi prosiectau i ailddatblygu a gwella canol trefi ac ardaloedd gerllaw.

National Well-being Goals (Sustainable development)

Understanding Wales

Making it Happen (Well-being duty)

5 Ways of Working (Sustainable Development Principle)



The **Denbighshire County Council's Climate and Nature Strategy (2021/22 to 2029/30)** outlines a comprehensive approach to address climate change and enhance biodiversity across the region, whilst promoting community involvement. The strategy's main goals include reducing greenhouse gas emissions, adapting to climate impacts, and fostering environmental resilience. It emphasises sustainable practices in energy, transportation, waste management and land use, aiming to protect local wildlife and ecosystems.

The strategy document will be formally reviewed and refreshed every 3 years up until 2030 (2023/24 and 2026/27).



Olwyn Nodau Lles

Pensaernïaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Cynllun Creu Lleodd Dinbych wedi cael ei ddatblygu yn unol â pholisi a deddfwriaeth cenedlaethol ac yn datblygu'r rhaglen hon, gan osod y llwybr ar gyfer buddsoddiad a sicrhau bod Canol Tref Dinbych yn le cynaliadwy sy'n gwasanaethau anghenion ei gymuned ehangach.

Polisi Rhanbarthol

Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018 - 2035 (2018) Mae’r strategaeth yn gweithio fel dogfen ganllaw gyda’r nod o gysoni ymdrechion adfywio yng Ngogledd Cymru gyda mentrau cydamserol gyda’r nod o feithrin twf economaidd yn yr ardal, gan gynnwys Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru (2016) a Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021). Mae’n amlinellu fframwaith gofodol a thematig ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiadau, gan amlinellu’r amcanion adfywio rhanbarthol canlynol:

- Lleihau anghydraddoldebau
- Cryfhau economi’r ymwelwyr
- Diogelu’r economi gwledig
- Moderneiddio canol trefi
- Gwellu’r cynnig tai

Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru (2016)

Creodd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru weledigaeth i esblygu Gogledd Cymru yn: “rhanbarth hyderus a chydlynol gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy’n uchafu ar lwyddiant sectorau economaidd o werth a’i chysylltiad i economïau Pwerdy Gogledd Lloegr ac Iwerddon.”Adeiladwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor sylfaenol:

- Blaengar– gyda ffocws ar arloesedd mewn sectorau o werth uchel i yrru perfformiad economaidd.
- Gwydn – gyda ffocws ar gadw pobl ifanc, gwella lefelau cyflogaeth a sgiliau i gyflawni twf cymhwysol.
- Cysylltiedig - gyda ffocws ar wella cludiant a’r isadeiledd digidol i wella cysylltedd strategol i ac o fewn y rhanbarth.

Roedd y weledigaeth a ddatblygwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru a’i bartneriaid, wedi siapio Bargaen Dwf Gogledd Cymru, a arwyddwyd yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru a

Llywodraeth y DU yn buddsoddi £240 miliwn ar y cyd i’r Fargaen Dwf dros 15 mlynedd. Nod y Fargaen Dwf yw adeiladu economi llewyrchus, cynaliadwy a chryf yng Ngogledd Cymru, gan adeiladu ar ei gryfderau i hybu cynhyrchiant, gan fynd i’r afael a heriau hirdymor a rhwystrau economaidd i ddarparu twf cynhwysol. Mae tri sector twf uchel wedi cael eu targedu gan Uchelgais Gogledd Cymru i yrru cynhyrchiant yn y rhanbarth:

- Ynni carbon isel;
- Gweithgynhyrchu gwerth uchel; a,
- Bwyd-amaeth a thwristiaeth.

Mae Dinbych gyda’i gyfleoedd twristiaeth cyfoethog ynghlwm a’i gymeriad a threftadaeth gref mewn safle da i gyfrannu tuag at o nodau hyn.

Mae methiant y farchnad eiddo a thir masnachol ac isadeiledd digidol wedi cael eu nodi fel rhwystrau allweddol tuag at dwf a hefyd yn dargedau ar gyfer buddsoddiad.



View from Temple Bar Garden across Denbigh

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru (2021)

Mae Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu fframwaith sy'n cipio sut fydd y cyhoedd, y sector preifat a'r trydydd sector yn cyflawni ar eu blaenoriaethau. Mae'r Fframwaith yn cysylltu'n uniongyrchol gyda strwythur y Fargen Dwf a'r nod yw cyflawni blaenoriaethau i hybu cynhyrchiant a chyflymu ffyniant cynhwysol ac economaidd cynaliadwy. Mae tair thema graidd ar gyfer y rhanbarth wedi'u diffinio o fewn y Fframwaith:

1. Lles cymdeithasol a chymunedol;
2. Economi carbon isel; a'r
3. Economi profiad.

Mae'r Fframwaith yn cydnabod cryfderau'r rhanbarth o ran ynni carbon isel, twristiaeth a'r sectorau bwyd a diod, wrth nodi pocedi o amddifadedd, cysylltedd gwael a theithiau hirach, gyda phreswylwyr Gogledd Cymru â'r teithiau hiraf yng Nghymru.

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r problemau a chyfleoedd allweddol yn y rhanbarth ac adborth budd-ddeiliaid, nodir deg blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth gan gynnwys ardaloedd ffocws ar gyfer Cynllun Creu Lleodd Dinbych:

1. Sgiliau a'r Gweithlu;
2. Buddsoddiad mewn magnetau, canolbwyntiau, cadwyni cyflenwi, ymchwil a datblygu, arloesi ac entrepreneuriaeth;
3. Cymorth cytbwys ar gyfer mewnfuddsoddwyr a buddsoddwyr lleol;
4. Iaith, diwylliant, lle a threftadaeth;
5. Economi Sylfaenol a sylfaen BBaCh/micro bywiog.
6. Grymuso cymunedau er lles cenedlaethau'r dyfodol;
7. Cysylltedd (cludiant a digidol);
8. Elwa ar fanteision y sector cyhoeddus;
9. Ynni carbon isel; a'r
10. Diwydiant Bwyd a Diod.

Nodir canol trefi o fewn y fframwaith fel elfen allweddol yr Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol. Mae rôl canol trefi i gefnogi

busnesau llai i fod n fwy cystadleuol, gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer amwynderau a gweithio o bell, a sefydlu canolfannau cymunedol, yn cael ei bwysleisio.and establishing community hubs are emphasised.

Diagram Economi Lles Cymdeithasol a Chymunedol



Strategaeth Natur a Hinsawdd CSDd (Gorffennaf 2024)

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gosod targed i ddod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-Garbon Net erbyn 2030, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed trwy ei flaenoriaeth Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr Amgylchedd a’r thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd (2022-2027). Mae nodau Ôl-troed Di-Garbon Net y Cyngor yn cynnwys lleihau allyriadau o adeiladau, gwastraff, cerbydau fflyd, teithio staff, goleuadau stryd a theithio busnes.

Dan arweiniad Strategaeth Natur a Hinsawdd Sir Ddinbych (2021/22 i 2029/30), mae’r Cyngor yn cymryd dull cynhwysfawr tuag at weithredu ar hinsawdd a

gwella bioamrywiaeth, trwy gynnwys y gymuned i hyrwyddo arferion cynaliadwy ar draws meysydd megis

Nod y strategaeth hon yw torri allyriadau nwy tŷ gwydr, cynyddu gwytnwch i effeithiau hinsawdd a chefnogi ecosystemau lleol.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a’i hadnewyddu’n ffurfiol bob 3 blynedd tan 2030 (2023/24 a 2026/27).

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (2024)

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli contract gydag ymgynghorwyr sy’n datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Sir Ddinbych a siroedd eraill gogledd Cymru. Awdur y Cynllun Ynni Ardal Leol oedd The Carbon Trust ac Arup, yn dilyn dull a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac roedd yn seiliedig ar fodelu, mewnwelediad data, a chynlluniau a syniadau budd-ddeiliaid gan gynnwys trwy weithdai. Bydd y cynlluniau dan berchnogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Eu nod yw bod yn arf canllaw ar y ffordd orau o weithio tuag at system ynni wedi’i datgarboneiddio’n llawn erbyn 2050.

Wedi’i deilwra i anghenion lleol wrth alinio gydag amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, mae’r Cynllun yn canolbwyntio ar drosglwyddo i ynni adnewyddadwy, gwella cryfder cymunedol a meithrin bywiogrwydd economaidd. Mae’n ceisio cryfhau cynllunio, adeiladu partneriaethau a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Gan gefnogi’r thema Cynllun Corfforaethol, Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd, mae’r Cynllun Ynni Ardal Leol yn cyfrannu tuag at leihau allyriadau ac yn alinio gyda’r Strategaeth Natur a Hinsawdd (2021/22-2029/30). Mae’r cynllun hefyd yn datblygu Sir Ddinbych Ffyniannus trwy hybu twf economaidd ac ehangu’r economi gwyrdd. Ei

weledigaeth yw cyflawni buddion lles, ecolegol, cymdeithasol ac economaidd lleol sylweddol, trwy newid i economi sero net, gan roi Sir Ddinbych mewn safle allforiwr net trydan carbon isel trwy gydweithrediad rhanbarthol.

Mae cynigion y Cynllun Ynni Ardal Leol yn rhoi cyfle i:

- Ddatgarboneiddio’r cyflenwad ynni yn Sir Ddinbych
- Swyddi newydd nad ydynt yn rhai dros dro/tymhorol
- Effeithlonrwydd ynni gwell mewn cartrefi a all gynyddu ansawdd bywyd ac iechyd a lleihau gofynion ynni
- Lleihau llygredd aer a chynyddu gwytnwch ynni

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (2024)

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli contract gydag ymgynghorwyr sy’n datblygu Cynllun Ynni Ardal Leol ar gyfer Sir Ddinbych a siroedd eraill gogledd Cymru. Cafodd y cynllun ei lunio gan yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Arup, yn dilyn dull a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac roedd yn seiliedig ar fodelu, data a chynlluniau a syniadau budd-ddeiliaid, yn cynnwys rhai a gafwyd mewn gweithda. Bydd y cynlluniau dan berchnogaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru. Eu nod yw bod yn arf canllaw ar y ffordd orau o weithio tuag at system ynni wedi’i datgarboneiddio’n llawn erbyn 2050.

Wedi’i deilwra i anghenion lleol wrth alinio gydag amcanion rhanbarthol a chenedlaethol, mae’r Cynllun yn canolbwyntio ar drosglwyddo i ynni adnewyddadwy, gwella cryfder cymunedol a meithrin bywiogrwydd economaidd. Mae’n ceisio cryfhau cynllunio, adeiladu partneriaethau a sicrhau cyllid ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Gan gefnogi’r thema Cynllun Corfforaethol, Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd, mae’r Cynllun Ynni Ardal Leol yn cyfrannu tuag at leihau allyriadau ac yn cyd-fynd â’r Strategaeth Natur a Hinsawdd (2021/22-2029/30). Mae’r cynllun hefyd yn datblygu Sir Ddinbych Ffyniannus trwy hybu twf economaidd ac ehangu’r economi gwyrdd. Ei weledigaeth yw cyflawni buddion lles, ecolegol, cymdeithasol ac economaidd lleol sylweddol, trwy newid i economi sero net, gan roi Sir Ddinbych mewn safle allforiwr net trydan carbon isel trwy gydweithrediad rhanbarthol.

Mae cynigion y Cynllun Ynni Ardal Leol yn rhoi cyfle i:

- Ddatgarboneiddio’r cyflenwad ynni a’r ddarpariaeth yn Sir Ddinbych
- Swyddi newydd nad ydynt yn rhai dros dro/tymhorol
- Effeithlonrwydd ynni gwell mewn cartrefi a all gynyddu ansawdd bywyd ac iechyd a lleihau gofynion ynni
- Lleihau llygredd aer a chynyddu gwytnwch ynni

Crynodeb Adfywio

Mae Crynodeb Adfywio Tref Dinbych yn cipio prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi’u cynllunio ar gyfer y dref dros y 5 mlynedd nesaf yn ogystal â phrosiectau sydd wedi’u cwblhau yn ddiweddar. Caiff y rhain eu diweddarau’n flynyddol. Mae’r amrywiaeth o brosiectau sydd wedi’u nodi yn cynnwys prosiectau adfywio arwyddocaol o fewn y dref a’r ardal gyfagos ac a gyflawnir gan Gyngor Sir Ddinbych, sefydliadau partner a’r gymuned leol.

3 prif nod y crynodeb adfywio yw:

- Rhestru’r prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi’u cynllunio, gan gynnwys prosiectau sydd wedi codi o ymgynghoriadau amrywiol dros y blynyddoedd diweddar;
- Rhestru’r prosiectau cyfalaf sylweddol sydd wedi’u cwblhau yn y blynyddoedd diweddar; a
- Dechrau’r broses i ddatblygu cynllun adfywio strategol ar gyfer y dref (Cynllun Creu Lleoedd).

Mae’r crynodeb yn categoreiddio Dinbych fel tref farchnad ganoloesol sy’n cynnig cymysgedd cyfleus o fanwerthu gyda chapasiti parcio da. Mae manwerthu a gwasanaethau yn canolbwyntio’n bennaf ar y gymuned leol a’r

gefnwlad gyfagos. Mae’r crynodeb hefyd yn nodi fod ardal ddiwydiannol ar gyrion y dref wedi ehangu’n ddiweddar, gan ddangos ymrwymiad i gyflogaeth lleol.

Gellir cael mynediad at y prosiectau hyn trwy ran Adfywio ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych 2018-2033 a'r CDLI Mabwysiedig Sir Ddinbych yn nodi dyheadau allweddol ac ardaloedd twf o fewn y Sir. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn sail ar gyfer penderfyniadau cynllunio a datblygu yn Sir Ddinbych.

Mae'r polisi yn amlygu Dinbych fel 'prif ganolbwynt' sy'n golygu ei fod yn anheddiad gyda rôl strategol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau. Nodir Dinbych fel canolbwynt allweddol yn CDLI Mabwysiedig Sir Ddinbych gan gydnabod ei bwysigrwydd ar gyfer preswylwyr fel safle cyflogaeth, manwerthu a gwasanaethau a'i rôl fel cyrchfan ymwelwyr mawr. O fewn yr hierarchaeth manwerthu, nodir Dinbych fel 'Canol Tref' sy'n golygu mai dyma'r lleoliad a ffefrir ar gyfer defnydd manwerthu, hamdden, swyddfa a chymdeithasol newydd, yn ail i'r Rhyl a Phrestatyn.

Mae Prosbectws Tir ar gyfer Tai (2016) yn amlygu 9.2ha o dir ar gyfer datblygiad preswyl yn Ninbych gan amlygu pwysau cynyddol ar wasanaethau'r dref yn y dyfodol i gynnal preswylwyr.

Mae'r nodau creu lleoedd sy'n bresennol o fewn amcanion CDLI Mabwysiedig Sir Ddinbych, yn cynnwys:

- Diogelu, gwella a datblygu adnoddau naturiol Sir Ddinbych mewn modd cynaliadwy, gan gynnwys isadeiledd gwyrdd a glas, ynni adnewyddadwy ac adnoddau mwynau;
- Diogelu a gwella amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol Sir Ddinbych;
- Cefnogi darpariaeth, gweithrediaeth a datblygiad isadeiledd a gwasanaethau;
- Galluogi adfywio ac adnewyddu amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus Sir Ddinbych i gyfrannu at ganol trefi hanfodol, hyfyw a deniadol gydag eiddo cyflogaeth sy'n bodloni gofynion busnesau modern; a,
- Chefnogi datblygiad sy'n hyrwyddo lles, gwytnwch a chydlyniant cymunedol gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael ag effeithiau risg llifogydd a newid hinsawdd.

Mae Strategaeth Natur a Hinsawdd Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 i 2029/30) yn amlinellu dull cynhwysfawr i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella bioamrywiaeth ar draws y rhanbarth, wrth hybu cyfranogiad y gymuned. Mae prif nodau'r strategaeth yn cynnwys lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr, addasu i effeithiau hinsawdd a meithrin gwytnwch amgylcheddol. Mae'n pwysleisio ar arferion cynaliadwy o ran ynni, cludiant, rheoli gwastraff a defnydd tir, gyda'r nod o ddiogelu bywyd gwyllt ac ecosystemau lleol.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n ffurfiol bob 3 blynedd tan 2030 (2023/24 a 2026/27).

Ciplun Economaidd-Gymdeithasol

Demograffeg



Mae gan Ddinbych boblogaeth hŷn ar y cyfan, gydag ond 15.4% o'r boblogaeth o dan 29 oed.

Mae'r boblogaeth flynyddol wedi cynyddu 2.2% dros 10 mlynedd, gan godi o 93,700 i 95,800.

Addysg

Mae 17.1% o bobl dros 5 oed mewn addysg amser llawn, ac nid oes gan 19% o bobl dros 16 oed unrhyw gymwysterau.



Ystadegau Cyflogaeth

Mae 57% o bobl 16 oed a thros hynny yn weithgar yn economaidd.



Mae 30.9% yn teithio llai na 10km i'r gwaith.
Mae 34.6% yn teithio 10km neu fwy i'r gwaith.

Mae 20.6% o bobl yn gweithio gartref yn bennaf.



Mae 13.45% o bobl yn gweithio'n bennaf ar osodiad alltraeth, heb leoliad sefydlog, neu y tu allan i'r DU.



Iechyd a Lles



Mae gan 47% o bobl yn Sir Ddinbych iechyd da iawn. Mae 6.5% mewn iechyd gwael i wael iawn.

Amddifadedd

Mae 47.4% o awydrefi wedi'u hamddifadu. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 54.1%.



Hanes a Diwylliant Dinbych

Ystyr Dinbych yw ‘caer fechan’. Mae hyn yn cyfeirio ar yr anheddiad caerog yn Ninbych yn ystod goresgyniad y Rhufeiniaid. Fe'i crybwyllir gyntaf mewn cofnodion o'r Goncwest Normanaidd, pan weithredodd Dinbych fel amddiffynfa ar gyfer Bryniau Hiraethog ac Eryri.

Ar ôl y Concwest Normanaidd 1282, cafodd Dinbych ei roi i Iarll Lincoln, Henry De Lacy, a ddaeth yn Arglwydd cyntaf Dinbych. Yna fe adeiladodd Castell Dinbych, ynghyd â waliau'r dref, dan orchymyn Brenin Edward 1. Yna tyfodd y dref o fewn waliau'r castell, fodd bynnag cafodd ei losgi yn ystod Rhyfel y Rhosod, gan achosi'r dref i adleoli i ben y bryn, lle mae'r stryd fawr bresennol wedi'i leoli.

Ym 1579, datblygodd Robert Dudley, Iarll Cyntaf Caerlŷr a Barwn Dinbych, gynlluniau i adeiladu cadeirlan yn Ninbych, gyda'r bwriad o symud y statws dinas o Lanelwy. Fodd bynnag, ni chwblhawyd y prosiect, o'r enw Eglwys Caerlŷr, ar ôl ei farwolaeth, ac mae bellach yn eiddo i CADW.

Yng nghanol y 1500au, comisiynodd Robert Dudley Neuadd y Sir, sydd bellach yn cael ei ddefnyddio fel llyfrgell y dref. Mae'n debygol mai dyma'r adeilad marchnad dan do cyntaf yn Ninbych, nes i'r neuadd farchnad fawr gael ei hadeiladu rhwng Llain y Capel a Sgwâr y Goron ym 1848. Ffynnodd Dinbych fel tref farchnad yn ystod cyfnodau Tuduraidd a Stiwartiaidd, gyda chrefftwyr megis cryddion, cyfrwywyr, gofaint a gwehyddion. Goroedd y rhain yn yr ardal nes yr oes ddiwydiannol yn y 19eg ganrif.

Erbyn canol y 1800au, roedd y dref wedi dod yn brif

ganolbwynt ar gyfer Dyffryn Clwyd, a chafodd ei gyflwyno ar y rhwydwaith rheilffordd fel cyffordd ar gyfer llinell rheilffordd Dyffryn Clwyd. Roedd hwn yn arwain i'r gogledd tuag at Lanelwy a'r Rhyl. Caewyd y rheilffordd ym 1955, ac fe'i datblygwyd i barc manwerthu bach.

Ym 1848, agorodd yr Hen Ysbyty Gogledd Cymru i'r gorllewin o'r dref gan ddarparu cyflogaeth i fwyafrif poblogaeth Dinbych. Yn ei anterth roedd 1500 o gleifion yno. Caewyd yr ysbyty yng nghanol y 1990au, gan fynd â'i ben iddo, ond cafodd ei gaffael gan Gyngor Sir Ddinbych yn 2018.

Rhan bwysig arall o ddiwylliant Dinbych oedd yr hen sinema ar ben uchaf Lôn Pendref. Ym 1928, agorodd sinema 'Scala', ac roedd ar agor hyd nes 1982, pan gafodd ei ail-enwi yn 'Futura Cinema'. Caeodd eto yn y 1990au, a daeth yr adeilad yn siop llogi fideos. Ym 1995, agorodd y sinema eto am gyfnod byr cyn cau eto. Mae'r adeilad bellach yn adfail ac yn disgwyl cael ei ailddatblygu.

Mae cyfleoedd yn bodoli i atgyfnerthu treftadaeth gyfoethog Dinbych fel tref farchnad hanesyddol, fodern, gan anrhydeddu ei orffennol tra'n

creu dyfodol bywiog. Gall adfywio canol y dref trwy ymyraethau wedi'u harwain gan dreftadaeth, adfer rôl Dinbych fel canolbwynt ar gyfer masnach a bywyd cymunedol. Mae gan hyn y potensial i hybu gweithgarwch economaidd, meithrin cydlyniant cymunedol, a sicrhau bod etifeddiaeth tref farchnad Dinbych yn ffynnu am genedlaethau i ddod.come.



Cynlluniau Creu Lleoedd


Mae cynlluniau creu lleoedd yn ffordd o sicrhau bod creu lleoedd yn cael ei ddefnyddio fel proses statudol. Mae’r cynlluniau’n hynod o bwysig i fodloni egwyddor ‘canol tref yn gyntaf’ Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i’r afael â’r dirywiad yn ein strydoedd mawr traddodiadol. Maent yn darparu ffordd o osod gweledigaeth gytunedig ar gyfer canol trefi, a gefnogir gan fudd-ddeiliaid, a’u defnyddio i ddarparu buddsoddiad i wella amrywiaeth a gwynnwch a chynyddu hyfywedd.

Siarter Creu Lleoedd Cymru

Yn 2020, datblygodd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, y Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Mae’r Siarter yn darparu cyngor ar gyfer arferion creu lleoedd a ellir ei ddefnyddio i baratoi’r cynlluniau; adeiladu ar y ffocws o greu lleoedd mewn polisi ac arferion yng Nghymru, gyda’r nod o ddarparu trosolwg o’r ystod eang o ystyriaethau. Mae hefyd yn hyrwyddo’r cread o gymunedau bywiog, cynaliadwy a chynhwysol ar draws Cymru trwy ganolbwyntio ar ansawdd a dyluniad y lleoedd lle mae pobl yn byw, gweithio a chwarae.

Er mwyn helpu i siapio ymarfer, mae’r Siarter yn cyflwyno chwe egwyddor creu lleoedd: Pobl a Chymuned, Symudiad; Parth Cyhoeddus; Lleoliad; Defnydd Cymysg a Hunaniaeth. Mae’r Cynllun Creu Lleoedd wedi cael ei baratoi yn unol â’r egwyddorion hyn. Mae’r egwyddorion wedi’u nodi isod ac wedi cael eu defnyddio i strwythuro’r ddogfen hon.



Mae’r diagram uchod yn dangos sut mae’r egwyddorion creu lleoedd, a nodir yn nogfen Canllawiau Creu Lleoedd Cymru (2020), gyda’i gilydd yn cyfrannu tuag at greu gwell naws am le ac amgylchedd o ansawdd uchel i bawb.

EGWYDDORION CANLLAWIAU CREU LLEOEDD CYMRU

LLEOLIAD FFISEGOL



Symudiad

Mae cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau teithio gan osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol diogel ac wedi’u dylunio’n dda yn cysylltu i’r rhwydwaith teithio llesol ehangach a gorsafoedd ac arosfannau cludiant cyhoeddus wedi’u hintegreiddio’n gadarnhaol.


DEFNYDD CYMYSG



Defnydd Cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy’n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau trwy gerdded, beicio neu gludiant cyhoeddus. Mae dwysedd datblygiad a deiliadaeth a defnydd cymysg yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus


GWEITHGAREDD



Lleoliad

Dylai lleoliadau dyfu a datblygu mewn ffordd sy’n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi a gwella lleoedd presennol ac wedi’u cysylltu’n dda. Mae lleoliad tai, cyflogaeth a hamdden a chyfleusterau eraill wedi’u cynllunio i helpu lleihau’r angen i deithio.


PARTH CYHOEDDUS



Parth Cyhoeddus


Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi’u diffinio’n glir, yn groesawgar, diogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth unigryw. Maent wedi’u dylunio i fod yn gadarn ac y gellir eu haddasu, gyda thirlun, isadeiledd gwyrdd a draenio cynaliadwy wedi’u hintegreiddio’n dda. Maent wedi cysylltu’n dda gyda lleoedd presennol ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio’n gymdeithasol ac ystod o weithgareddau.

YSTYR



Pobl a Chymunedau

Mae’r gymuned leol yn rhan o ddatblygu cynigion. Ystyrir anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb o’r dechrau. Mae cynigion wedi’u siapio i helpu diwallu’r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, diogelu a/ neu wella synnwyr o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.



Hunaniaeth

Mae nodweddion cadarnhaol, unigryw’r lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a’u parchu. Nodir ac ymatebir i nodweddion a’r cyfleoedd unigryw a geir mewn lle, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol.




Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltiad yn hanfodol ar gyfer datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd llwyddiannus. Mae'n hanfodol deall a darparu ar egwyddorion creu lleoedd Cymunedol a Hunaniaeth y Siarter Creu Lleoedd, ac mae hefyd yn hanfodol sicrhau perchnogaeth a rennir a galluogi holl fudd-ddeiliaid sydd ynghlwm i siapio cymeriad a hyfywedd trefi a chydweithio i ddarparu buddsoddiadau.


Mae Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Dinbych wedi cael ei danategu gan ymgysylltiadau budd-ddeiliaid lleol gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid proffesiynol a lleol. Mae hyn wedi cynnwys Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych, Aelodau Lleol, y Cyngor Tref, perchnogion busnes lleol a'r gymuned. Cyflawnwyd ymgysylltiad trwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb a threulio amser yng nghanol y dref.

Cyflawnwyd yr ymgysylltiad cychwynnol o Ebrill hyd at Fehefin 2024, gydag ymgysylltiad pellach i ddilyn gan hysbysu'r paratoadau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.

Mae trosolwg o'r broses ymgysylltu wedi'i ddangos ar y dde. Darperir rhagor o wybodaeth am yr adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltiad yn ddiweddarach yn y ddogfen.




Nodau ymgysylltu â budd-ddeiliaid The Urbanists.



Chwefror 2024
Dref Dechrau'r Prosiect



Ymgysylltiadau Cyfleoedd a Phroblemau Canol y



Strategy Plan Engagements








02

**Dinbych Heddiw:
Dadansoddiad o Le**

Dadansoddiad o Ganol y Dref

Dadansoddiad o Le

Er mwyn deall y problemau a chyfleoedd, cyflawnwyd dadansoddiad o le ffisegol o ganol y dref. Roedd y dadansoddiad yn ystyried pob un o egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Cymru, gan adlewyrchu ar bob agwedd allweddol sy'n cyfrannu at naws am le; gweithgaredd; lleoliad ffisegol ac ystyr.



Gweithgaredd

Symudiad

- Yn y pyrrh mynediad i ganol y dref/stryd fawr, yn rhannol yn sgil bysiau a ffyrdd cul, mewn rhai ardaloedd, dim ond lle i un car basio heibio ar un adeg sydd ar gael. Mae hyn yn fwy nodedig ar ochr orllewinol y stryd fawr. Mae mynediad i gerbydau i'r castell yn gul ac yn aneglur, ac mae inclein serth tuag ato, gan wneud gyrru yn angenrheidiol i rai pobl. Gall archwilio'r posibilrwydd o weithredu system unffordd amgen, gynnig datrysiad a gwella hygyrchedd cyffredinol ar gyfer ystod ehangach o ddulliau teithio.
- Parcio - Swm da o feysydd parcio oddi ar y stryd fawr gyda rhai'n cynnig parcio am ddim. Mae parcio o amgylch y Castell yn brin iawn, gydag un gofod parcio hygyrch yn unig, gan gyfyngu ar hygyrchedd a mwynhad yr ased treftadaeth.
- Cludiant cyhoeddus - Nid oes unrhyw drenau i Ddinbych ac felly'r unig gludiant cyhoeddus sydd ar gael yr bysiau. Mae'r rhain yn cysylltu Dinbych gyda'r trefi a dinasoedd amgylchynol, megis Wrecsam, ac mae bws pob 30 munud i dref gyfagos Rhuthun. Yn y cylchfan ar ochr orllewinol y dref, mae'r arosfannau bysiau wedi'u lleoli ar hyd ffordd brysur heb unrhyw groesfannau i gerddwyr, sy'n achosi problemau diogelwch.
- Llwybrau beicio - Nid oes unrhyw lwybrau beicio cenedlaethol trwy Dinbych na'r ardal amgylchynol, fodd bynnag mae llwybrau wedi cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol a dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw gynigion adfywio yn y dyfodol er mwyn sicrhau y cant eu lletya.

Mae gan Ddinbych gyfanswm ymwelwyr o 654,633 y flwyddyn (2022), gyda mwyafrif yr ymweliadau yn digwydd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr.

Defnyddiau Cymysg

- Y Stryd Fawr - mae'r stryd fawr hanesyddol yn cynnwys rhan o Stryd y Dyffryn a Sgwâr y Neuadd. Gan ymestyn oddeutu 850m o bob cylchfan ar bob ochr i'r ardal manwerthu. Mae cyfradd unedau gwag sylweddol o 26.4% - un o'r uchaf ymysg canol trefi Cymru ar hyn o bryd. Mae'r cynnig busnes yn cynnwys gwasanaethau bob dydd, gyda chrynodiad mawr o unedau annibynnol.
- Porth y Gorllewin - Ar y pen hwn o'r stryd fawr, mae tafarn, bar/caffi chwaraeon ac eglwys yn amgylchynu'r cylchfan mawr. Mae dau arhosfan bws wedi'u lleoli ar hyd ochr y palmant o'i amgylch, gan greu pwynt prysur ac anghroesawgar wrth gyrraedd canol y dref.
- Porth y Dwyrain - mae'r stryd fawr yn llinol gyda mwyafrif y siopau mewn clwstwr yn y canol ac eraill wedi'u gwasgaru a'u rhannu ar hyd yr ardal ddwyreiniol. Mae'r ardal hon yn teimlo ychydig ar wahân o ganol y dref, wedi'i gyfuno gydag unedau preswyl ac wedi'i ddominyddu gan y ffordd. Mae defnydd yn y lleoliad hwn yn cynnwys archfarchnadoedd mawr a nifer o unedau manwerthu.
- Castell - Un o brif atyniadau hanesyddol i dwristiaid yn y dref y Castell Dinbych sydd wedi'i leoli i'r De o ganol y dref. Mae llwybrau i gerddwyr a cherbydau i'r Castell yn ddryslyd ac yn aneglur, gan gyflwyno cyfleoedd i wella ei gysylltiad gyda chanol y dref.



Porth gorllewinol i'r dref wedi'i ddominyddu gan gerbydau



Blaen stryd diddorol yn weledol ar hyd Sgwâr y Neuadd



Golwg dros y Stryd Fawr tuag at Lyfrgell Dinbych




Mynedfa i gerddwyr i'r maes parcio o'r canol



Ochr orllewinol y Stryd Fawr yn dangos amgylcheddau garw




Stryd ochr annymunol tuag at y Castell



Dadansoddiad o Ganol y Dref

Lleoliad Ffisegol



Lleoliad

- Dalgylch a Thopograffeg - Mae canol dref Dinbych wedi'i leoli yng nghanol yr anheddiad gydag ardaloedd preswyl ar bob ochr. Mae'r topograffeg ar draws yr anheddiad ar inclein sylweddol o'r ochr Orllewinol i'r De tuag at Gastell Dinbych, ac mae'r Stryd Fawr ar oledf graddol i lawr o'r Gorllewin i'r Dwyrain. Gall hyn atal rhai preswylwyr sy'n defnyddio teithio llesol.
- Cartrefi - Er fod rhai cartrefi wedi'u lleoli uwchben unedau masnachol, mae'r prif ardaloedd preswyl bob ochr i ganol y dref. Gall dopograffeg amrywiol y safle gyflwyno her i breswylwyr sydd eisiau cael mynediad at ganol y dref ar droed. Gall archwilio'r galw a chyfleoedd posibl i gyflwyno cartrefi newydd i'r ardal ganolog, wella hyfywedd canol y dref a chynyddu nifer yr ymwelwyr ar gyfer busnesau lleol.
- Gwasanaethau Cyhoeddus - Mae hen Neuadd y Sir, sydd bellach yn Llyfrgell Dinbych, wedi'i leoli yng nghanol y stryd fawr. Mae'n cynnig cyfleusterau megis mannau cydweithio. Mae cyfleusterau cyhoeddus eraill yn cynnwys Swyddfa'r Post yn y canol a defnydd iechyd a hamdden allweddol wedi'u gwasgaru ar draws yr anheddiad. Gyda'r unedau gwag mae posibilrwydd cynyddu darpariaeth y gwasanaethau cyhoeddus o fewn canol y dref os oes angen.
- Adnoddau Naturiol - Ychydig iawn o adnoddau naturiol sydd o fewn canol y dref. I'r dwyrain o Ddinbych mae Bryniau Clwyd, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac i'r gorllewin mae Mynydd Hiraethog. Mae Bryniau Berwyn wedi'u lleoli i'r de o'r Dyffryn, ac mae arfordir Gogledd Cymru 15 milltir i'r cyfeiriad arall.

Parth Cyhoeddus

- Strydoedd - Gyda thirwedd caled a Stryd Fawr wedi'i ddominyddu gan y ffordd, nid yw'r dref yn cyflwyno amgylchedd croesawgar nac o ansawdd uchel i gerddwyr. Mae tagfeydd a phalmentydd cul mewn lleoliadau amrywiol yn gallu arwain at fannau anniogel ar gyfer cerddwyr. Mae'r cylchfan ar ochr orllewinol y Stryd Fawr â phalmentydd cul heb unrhyw croesfannau gan greu porth gwael i'r dref. Mae bolardiau a rheiliau ar hyd y palmentydd sy'n teimlo'n ddiangen ac yn anniben.
- Mannau Cyhoeddus - Mae rhai pocedi diffiniedig o fannau agored ar hyd y Stryd Fawr, rhai i gerddwyr yn unig, ond ni chânt eu defnyddio ddigon gan nad ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd i ymwelwyr aros a chymdeithasu yno. Mae nifer o'r rhain wedi'u lleoli ar hyd y Stryd Fawr brysur. Gan fod digwyddiadau yn yr haf yn aml yn cael eu cynnal yn y mannau hyn, mae cyfle yma i wella eu rôl.
- Coed a Phlanhigion - ar hyn o bryd nid oes bron unrhyw gysgod naturiol a lloches gan isadeiledd gwyrdd o fewn y canolbwynt. Er fod blychau plannu wedi cael eu gosod ar hyd y Stryd Fawr, mae cyfleoedd eraill ar gael i wneud y parth cyhoeddus yn fwy gwyrdd ac i ysgafnhau'r tirlun.



Lôn Cefn, stryd i gerddwyr oddi ar Sgwâr y Neuadd



Cerflun o fewn Sgwâr y Neuadd



Gerddi cyhoeddus yn arwain i fyny tuag at Gastell Dinbych



Poced o ofod cyhoeddus ger Llyfrgell Dinbych



Gofod cyhoeddus tu allan i'r Llyfrgell




Inclein i'r de tuag at y Castell o ganol y dref



Allwedd

- | | |
|-----------------------------|-------------------------|
| Terfyn y Prosiect | Meysydd Parcio |
| Adeiladau | Maes Parcio Aml-lawr |
| Adeiladau Safon Wael | Gorsafoddd Bysiau |
| Mannau Gwyrdd Cyhoeddus | Gorsafoddd Bysiau Gwael |
| Coetir | Parc Sgrialu |
| Canol y Dref | Cyrtau Tennis |
| Ardal Gadwraeth | Cae Pêl-droed |
| Porthoddd Gwael | Cae Criced |
| Man Cyhoeddus Tangenhedddeg | |
| Prif Fannau Cyhoeddus | |
| Ffasâd Gwael | |

Dadansoddiad o Ganol y Dref



Ystyr

Pobl a Chymuned

- Denu pobl i ganol y dref - Hyd yn oed gydag un o gyfraddau unedau gwag uchaf ymysg yr holl ganol trefi ar 26.4% yn 2024, mae Dinbych yn gartref i gymysgedd o siopau annibynnol, caffis, tafarndai a bwytai. Mae archfarchnadoedd mawr wedi'u lleoli ym mhen draw dwy ochr canol y dref, sydd o bosibl yn cystadlu gyda defnydd manwerthu yng nghanol y dref.
- Digwyddiadau - Bob blwyddyn mae Dinbych yn cynnal Gŵyl Canol Haf Dinbych ym Mehefin, gan ddenu gwahanol bobl ac oedran yn y gymuned i ganol y dref. Mae'r ŵyl wedi'i gwasgaru ar draws y dref mewn lleoliadau gwahanol gan gynnwys Neuadd y Farchnad, Sgwâr y Goron, Llyfrgell, ysgolion a'r Theatr. Mae hyn yn dod a synnwyr o gymuned i'r dref yn ogystal â denu twristiaid. Dylid ystyried cyfleoedd i archwilio sut all canol y dref gefnogi a hwyluso'r digwyddiadau hyn.
- Cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc - Mae cyfleusterau hanesyddol a groesawir gan ystod eang o ddemograffeg wedi cael eu colli dros amser, megis sinema'r dref. Gall strwythurau hanesyddol gwag ddarparu cyfleoedd ar gyfer defnydd a gynhelir gan y gymuned, er mwyn dod ag adeiladau'n ôl i ddefnydd ac elwa grwpiau iau.

Hunaniaeth

- Pensaerniaeth - Wedi'i leoli o fewn ardal gadwraeth, mae Dinbych â mwy o adeiladau rhestredig nad unrhyw dref arall yng Nghymru ac mae'n ymfalchio yn yr adfywiad bach cyffredinol sydd wedi digwydd. Mae cymeriad yr hen dref farchnad amaethyddol yn parhau, ac mae cyfres o safleoedd treftadaeth yn amgylchynu canol y dref hefyd, gan gynnwys Castell Dinbych, Porth Burgess, Eglwys Leicester a Hen Ysbyty Gogledd Cymru sydd bellach dan eiddo preifat. Mae hen Neuadd y Sir o 1572 bellach yng nghanol y Stryd Fawr fel llyfrgell cyhoeddus a chanolfan groeso.

- Ymdeimlad y Stryd Fawr - mae cynllun canoloesol canol y dref yn creu cyfres o strydoedd ochr bach a phocedi o ofodau cyhoeddus. Gydag ymdeimlad tref farchnad draddodiadol, ac adeiladau o uchder tebyg, mae gan ganol y dref naws gadarnhaol caeedig, fodd bynnag mae rhai o'r strydoedd ochr sy'n arwain at yr atyniadau ymwelwyr allweddol, megis y castell, yn dioddef o gyfeirbyst gwael. Mae'r pensaerniaeth ac agweddau hanesyddol y dref yn ei wneud yn le diddorol i grwydro, fodd bynnag mae diffyg isadeiledd gwyrdd yn creu tirlun caled.
- Topograffeg - mae newidiadau lefel serth ar draws canol y dref a'r aneddiadau ehangach yn creu heriau hygrychedd. Er fod newidiadau lefel rhwng rhai o'r meysydd parcio a'r stryd fawr mae'r rhain yn raddol.
- Hunaniaeth yn y dyfodol - mae synnwyd cryf o falchder yn y gymuned o ran hanes Dinbych. Mae hanes canoloesol cryf yr ardal yn denu twristiaid, ond mae angen gwella cyfeirbyst, mynediad a llety er mwyn gwella'r profiad cyffredinol.
- Diwylliant a Chelf - Mae gan Ddinbych ddiwylliant celf, cerddoriaeth a theatr cryf, wedi'u trefnu'n bennaf gan grwpiau gwirfoddol lleol a mentrau cymdeithasol. Mae Amgueddfa Radio Cymru, sydd wedi'i leoli ar ochr orllewinol y stryd fawr ond yn agor ar ddyddiau Gwener a rhai dyddiau Sadwrn. Mae nifer o henebion ar draws y dref, rhai'n ddadleuol, sy'n ffurfio rhan o hanes y dref. Mae artistiaid lleol wedi gweithio i fywiogi'r prif lwybr i gerddwyr o'r stryd fawr i'r castell.



Lawnt ar flaen Castell Dinbych



Porth Burgess



Pensaerniaeth a deunyddiau traddodiadol o fewn y dref



Unedau manwerthu ar hyd Stryd y Dyffryn



Pensaerniaeth Tref Farchnad Draddodiadol



Prif olwg o Neuadd y Farchnad o Sgwâr y Neuadd

Allwedd

- | | |
|---|--|
|  Terfyn y Prosiect |  Meysydd Parcio |
|  Adeiladau |  Maes Parcio Aml-lawr |
|  Adeiladau Rhestredig |  Gorsafodd Bysiau |
|  Mannau Gwyrdd Cyhoeddus |  Gorsafodd Bysiau Gwael |
|  Coetir |  Waliau'r Castell |
|  Canol y Dref |  Celf Gyhoeddus |
|  Ardal Gadwraeth |  Prif Fan Cyhoeddus |



Dadansoddiad o Ganol y Dref

Mae'r graff gwe pry cop yn dangos dau ddimensiwn o berfformiad Dinbych yn erbyn y 6 egwyddor creu lleoedd a nodir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r graff hwn yn darparu crynodeb ddefnyddio i ganfod meysydd lle mae'r dref yn tan berfformio a fydd yn llywio'r cynigion a dewisiadau datblygu. Mae'r sgoriau'n seiliedig ar y wybodaeth a gesglir a'r canfyddiadau a lunnir o'r dadansoddiad o ganol y dref. Mae'r canlynol yn darparu setiau meini prawf sydd wedi cael eu mabwysiadu asesu Dinbych:

Identity

1

Hunaniaeth unigryw

2

Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant

3

Diogel a chroesawgar

4

Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon

Symudiad

1

Teithio Llesol wedi'i letya'n dda

2

Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol

3

Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus

4

Blaenoriaethu pobl dros gerbydau

Pobl a Chymuned

1

Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol

2

Defnydd cryf o'r Gymraeg

3

Hyrwyddo balchder cymunedol

4

Mynediad da at gyfleusterau cymunedol

Parth Cyhoeddus

1

Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel

2

Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf

3

Darparu gofodau cynhwysol i bawb

4

Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda

Defnydd Cymysg

1

Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol

2

Canol tref bywiog

3

Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol

4

Economi dydd a nos cryf

Lleoliad

1

Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach

2

Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol

3


Graddfa a dwysedd priodol

4

Defnyddir tir yn effeithlon

Sgôr Sylfaenol:	
1	Tan berfformio'n sylweddol yn erbyn egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
2	Tan berfformio yn erbyn egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
3	Bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
4	Rhagori ar yr egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
5	Rhagori'n sylweddol ar yr egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd

Yn seiliedig ar ein harsylwadau, rydym wedi cyflawni adolygiad ansoddol a goddrychol o nodweddion creu lle Dinbych. Mae angen gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael gydag agweddau dynol a phrofiad na ellir ei gipio gan fetrigau meintiol yn unig. Mae creu lleoedd yn golygu creu mannau sy'n cyd-fynd â hunaniaeth pobl, eu hemosiynau a chyd-destun diwylliannol, gan olygu bod dadansoddiad goddrychol yn angenrheidiol i asesu ffactorau megis apêl weledol, synnwyr o berthyn ac ymgysylltiad cymunedol.



Egwyddorion Creu Lleoedd		Arsylwadau Allweddol	Sgôr
Hunaniaeth			13
1. Hunaniaeth unigryw	Craidd hanesyddol a threftadaeth bensaernïol unigryw, cartref i Gastell Dinbych, wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad hardd Gymreig sy'n weledol o fewn y dref, mae cyfleoedd i wella a dathlu'r asedau hyn.		4
2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant	Yn cynnwys nifer o adeiladau mewn cyflwr da o gyfnodau amrywiol, gan gynnwys pensaernïaeth Duduraidd, Sioraidd a Fictoraidd. Gall fynd i, a chysylltiadau â'r strwythurau hyn fod yn wael, ac mae rhai strwythurau hanesyddol o fewn y dref yn wag.		3
3. Diogel a chroesawgar	Yn cynnal nifer o ddigwyddiadau mawr sy'n apelio at ddemograffeg eang, palmentydd cul ger ffyrdd prysur a lonydd heb wylia dwriaeth gyda chyfeirbyst gwael.		2
4. Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon	Cartrefi i nifer o dirnodau hanesyddol, adeiladau sydd â motifau addurniadol, nifer o osodiadau celf ac arwyddion deongliadol, cyfle i'w pwysleisio'n well.		4
Pobl a Chymuned			11
1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol	Cynnal nifer o ddigwyddiadau cymunedol mawr, diffyg gofod aros o fewn canol y dref, colled cyfleusterau hanesyddol sydd wedi mynd dros amser.		2
2. Defnydd cryf o'r Gymraeg	Mae nifer o arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus yn Ninbych yn ddwyieithog, cynhelir digwyddiadau diwylliannol o fewn y dref sy'n arddangos y Gymraeg.		4
3. Hyrwyddo balchder cymunedol	Blaen adeiladau wedi dyddio a pharth cyhoeddus anniben, cyfran uchel o unedau gwag, gellir hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol yn well		2
4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol	Ystod eang o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys llyfrgell, oriel ac amgueddfa, cyfleoedd i ehangu nifer ac amrywiaeth y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael.		3
Defnyddiau Cymysg			11
1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol	Cymysgedd cadarnhaol o ddefnydd annibynnol, amrywiaeth ehangach ddefnydd tu allan i ganol y dref, gellir gwella cyfleoedd ar gyfer hamdden o fewn canol y dref.		3
2. Canol dref fywiog	Dewis rhesymol o weithredwyr bwyd a diod, cyfradd unedau gwag uchel 26.4% o fewn canol y dref, gan gynnwys unedau gwag hirdymor..		2
3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol	Ystod eang o fannau agored cyhoeddus o amgylch cyrion y dref, ychydig iawn o fannau gwyrdd o fewn canol y dref.		3
4. Economi dydd a nos cryf	Mae defnydd blaenorol yn gysylltiedig â'r economi nos yn gwneud cyfran fawr o unedau gwag hirdymor, mae cyfleoedd i wella'r cynnig a denu buddsoddiad.		3
Symudiad			11
1. Teithio Llesol wedi'i letya'n dda	Mae palmentydd cul a chysylltiadau i gerddwyr sydd wedi'u dominyddu gan gerbydau yn tarfu ar deithio llesol, nid oes unrhyw lwybrau beicio strategol o fewn Dinbych na'i gyd-destun cyfagos.		2
2. Llwybrau hydraiddd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol	Mae patrwm hanesyddol y dref wedi arwain at gysylltiadau dryslyd a chyfeirbyst gwael, mae cyfleoedd i atgyfnerthu a gwella llwybrau mwy uniongyrchol.		3
3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus	Nid oes cysylltiadau trenau o fewn Dinbych, mae arosfannau bysiau wedi'u lleoli ar draws canol y dref, mae rhai arosfannau'n arwain at dagfeydd ac yn anghyfforddus i aros ynddynt.		3
4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau	Ffordd gerbydau llydan a chyffordd fawr gan arwain at balmentydd cul, diffyg lle i groesi, cerbydau'n parcio ar balmentydd a diffyg isadeiledd i gerddwyr.		2
Parth Cyhoeddus			9
1. Adeiladau a strydlyn o ansawdd uchel	Cymeriad pensaernïol cryf yn adlewyrchu hanes cyfoethog, gan greu strydlyn diddorol a deniadol, mae hyn yn cael ei golli yn sgil lefel y blerwch ar y stryd		4
2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf	Patrymau stryd organig, afreolaidd, sy'n peri her i eglurdeb, nifer o dirnodau cryf a nodweddion unigryw.		2
3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb	Gall ardaloedd o'r parth cyhoeddus fod yn anodd i grwpiau penodol megis pobl hŷn neu ifanc iawn, ychydig iawn o isadeiledd i gerddwyr sydd o fewn canol y dref.		1
4. Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda	Ychydig iawn i ddim o isadeiledd gwyrdd o fewn canol y dref, wedi'i gronni tuag at ochr yr anheddiad ac amgylch y castell.		2
Lleoliad			11
1. Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach	Gall gysylltiadau trwy Ddinbych fod yn ddryslyd a'i rwystro gan ddaearyddiaeth yr ardal, mae canol y dref wedi'i leoli'n ganolog sy'n gwella dalgylch ehangach y dref.		3
2. Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol	Ychydig iawn o adnoddau naturiol o fewn canol y dref, ystod eang o fannau gwyrdd wedi'u lleol i berimedr y dref.		2
3. Graddfa a dwysedd priodol	Mae'r bensaernïaeth o fewn y canol hanesyddol wedi arwain at 'ddwysedd ysgafn' a 'graddfa ddynol',		4
4. Defnydd tir effeithlon	Mae ardaloedd mawr o barcio lefel wyneb ac adeiladau/tir gwag yn amlygu cyfleoedd ar gyfer gwell defnydd.		2





03

Uchelgeisiau a Strategaeth Lleodd

Gweledigaeth a Dyheadau Craidd

Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o le, paratowyd cyfres o ddyheadau lleoedd craidd i ddarparu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer y dref, gan fframio'r math o fuddsoddiad a phrosiectau a fydd yn cael eu dilyn. Mae'r dyheadau'n ymateb i'r dadansoddiad o le ac adborth budd-ddeiliaid allweddol.

Cyflwynir y dyheadau craidd isod ger pob un o'r Egwyddorion Siarter Creu Lleoedd.

Gweledigaeth

Adfywio Dinbych fel cyrchfan hanesyddol fywiog, gan ddathlu ei threftadaeth Gymreig gyfoethog, ei thirweddau godidog, a'i Stryd Fawr a'i chastell eiconig. Bydd Dinbych yn ffynnu fel tref farchnad sy'n addas i gerddwyr, gan feithrin ysbryd cymunedol gyda chymysgedd amrywiol o gartrefi, siopau annibynnol ac amwynderau. Gyda chysylltiadau teithio rhagorol, Dinbych fydd y porth i'r harddwch naturiol cyfagos. Fel canolfan ar gyfer diwylliant, hanes ac iaith, bydd yn cynnal digwyddiadau diwylliannol, yn arddangos pensaernïaeth a chelf, ac yn cefnogi busnesau lleol, trigolion a chenedlaethau'r dyfodol, gan feithrin balchder ac ymdeimlad dwfn o gymuned.

LLEOLIAD FFISEGOL

GWEITH

CYRCHFAN HANESYDDOL, FFYNIANNUS

...yng nghanol Sir Ddinbych, wedi'i adeiladu ar dreftadaeth a hanes Cymreig gyfoethog, gyda thirweddau naturiol eithriadol ac ystod o siopau annibynnol gan greu cynnig hamdden rhagorol.

LLEOLIAD

TREF FARCHNAD FYWIOG A PHARTH CYHOEDDUS CROESAWGAR

...hwyluso mwynhad o'i adeiladau rhestredig ac wedi'i nodweddu gan Stryd Fawr ddeniadol a phrysus, gyda mannau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar gerddwyr gan gefnogi rhyngweithiadau cymdeithasol a synnwyr cryf o gymuned.

PARTH CYHOEDDUS

TREF GYSYLLTIEDIG A HYGYRCH I BAWB

...gyda llwybrau teithio llesol rhagorol yn cysylltu'r Stryd Fawr i'r dwyrain a'r gorllewin, safleoedd treftadaeth allweddol a'r ardaloedd amgylchynol; gan sefydlu Dinbych fel canolbwynt i grwydro'r dirwedd naturiol ehangach.

SYMUDIAD

GAREDD

YSTYR

**CYMYSGEDD CYFOETHOG
O GARTREFI, SIOPAU
ANNIBYNNOL A
CHYFLEUSTERAU**

...darparu ystod eang o ddefnydd sy'n cyfrannu tuag at fywiogrwydd dydd a nos y dref, gan fanteisio ar y gyfres o ofodau wedi'u dylunio i gefnogi busnesau bach, amwynderau cymunedol a mynediad at ystod eang

o wasanaethau lleol.

DEFNYDD CYMYSG

**YMDEIMLAD CRYF O
GYMUNED A BALCHDER**

...i gefnogi a gwasanaethu preswylwyr, busnesau a grwpiau lleol, yn ogystal â chreu cynnig cryfach ar gyfer y cenedlaethau iau; gan ddarparu gofodau sy'n cefnogi sefydliadau lleol sy'n gweithredu yng nghanol dref Dinbych.

POBL A CHYMUNED


**CANOLBWYNT AR GYFER
DIWYLLIANT, HANES A'R
IAITH GYMRAEG**

...sy'n dathlu treftadaeth a hanes cyfoethog Dinbych, drwy hwyluso digwyddiadau lleol a diwylliannol, pensaernïaeth a chelf gyda phwyslais cryf ar hyrwyddo'r Gymraeg.

HUNANIAETH

Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau
Ymyraethau Ardal Tref Gyfan

- Gwella cysylltiadau i gerddwyr o’r ardaloedd preswyl amgylchynol ar draws Dinbych i ganol y dref, yn arbennig o’r gorllewin, lle mae cyfleoedd i wella’r cysylltiadau presennol.
- Buddsoddi mewn, sicrhau ac ehangu’r ystod o weithgareddau sydd ar gael ar fannau gwyrdd o fewn Dinbych. Cyflwyno cyfleusterau newydd gyda defnydd ac apêl gorau bosibl i bob demograffeg.
- Cyflwyno cyfeirbyst cryfach trwy gydol y dref, yn arbennig tuag at y nodweddion, adeiladau ac asedau diwylliannol, hanesyddol mwyaf gwerthfawr. Gellir cyflawni hyn mewn modd sydd hefyd yn cefnogi a gwella’r iaith Gymraeg.
- Adnewyddu adeiladau gwag ar draws y stryd fawr i gyflwyno defnydd newydd, gan gynnwys defnydd preswyl a masnachol/manwerthu, gan wella hyfywedd a naws am le y mae’r strwythurau hyn yn cyfrannu tuag at y stryd fawr.
- Mae diogelwch i gerddwyr yn cael ei flaenoriaethu, a gellir cyflawni hyn trwy ailystyried dosbarthiad y gofod rhwng cerddwyr a cherbydau a lliniaru gwrthdaro rhwng y ddau ddefnyddiwr.





Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

Castell Dinbych a Gorllewin Dinbych

- 1

Ôl-osod Swyddfeydd Cyngor Caledfryn gyda defnydd newydd fel cyfleuster gofal iechyd.
- 2

Ehangu'r cynnig gofod gwyrdd awyr agored ar ochr orllewinol y dref gyda chyfleusterau hamdden newydd ym Mharc Cae Hywel, gan gynnwys trac rhedeg newydd, llecyn gemau aml-ddefnydd (MUGA), ac offer ffitrwydd awyr agored er mwyn amrywio'r cynnig hamdden a chefnogi a gwella bioamrywiaeth.
- 3

Gwella llwybrau treftadaeth presennol gyda chyfeirbyst ychwanegol gyda phwyslais ar gysylltiadau i Gastell Dinbych o'r stryd fawr.
- 4

Gwella mynediad at y castell gyda pharcio dynodedig ger St Hilary's Terrace, o fewn y ffin priffordd ar gyfer y rhai sydd â heriau symudedd, yn ogystal â'r posibilrwydd o ddulliau amgen o gludiant i ymwelwyr.
- 5

Gwell isadeiledd o amgylch y llwybrau cerdded, i ac o'r castell, ar hyd waliau'r dref ac i gyrchfannau treftadaeth eraill. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys gwella'r deunyddiau tir gan ychwanegu rheiliau llaw ar fannau serth, gan gynorthwyo hygyrchedd.
- 6

Archwilio cyfleoedd ar gyfer gosodiadau / murluniau celf gyhoeddus ychwanegol ar hyd Lôn Brombil tuag at y castell i ychwanegu at yr ymdrechion blaenorol.
- 7

Creu gofod dynodedig ar gyfer biniau ar hyd Lôn Brombil i ddelio gyda'r broblem gwastraff ar hyd y llwybr cysylltiol pwysig hwn rhwng canol y dref a Chastell Dinbych.
- 8


Gwella cyfeirbyst o amgylch y castell i'r maes parcio lleol. Ffordd gul gyda pharcio ar ochr y ffordd er mwyn gallu ehangu'r gofod gwyrdd a chreu tirlun llai caled o flaen Eglwys Sant Hilari.
- 9

Gwella'r defnydd o'r ardal werdd o amgylch Castell Dinbych, gan gynnwys darparu gofod gwyrdd hyblyg sy'n cynnwys gofod ar gyfer digwyddiadau, seddi cymdeithasol a darpariaeth chwarae plant.
- 10

Archwilio ailddatblygu safle'r hen Sinema Scala (Sinema Wedgewood) fel canolbwynt preswyl neu amlbwrpas ar gyfer y gymuned, busnes a lles, sy'n gallu lletya defnyddiau megis canolfan fusnes ac ystafelloedd amlbwrpas.
- 11

Archwilio cyfle i gyd-grynhoi'r orsaf dân gyda gwasanaethau brys eraill gan ddarparu mwy o ofod yn yr Hwb i ehangu.





Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

Porth Gorllewinol a Chanol y Dref

12.

Gwneud defnydd gwell o faes parcio Ward y Ffatri, gan ail-ddylunio rhan fach o'r ardal i greu gofod digwyddiad hyblyg sy'n gallu lletya marchnad awyr agored ac yn y cyfamser defnyddio'r unedau i dargedu busnesau newydd.
13.

Archwilio'r opsiwn i drawsnewid lloriau uchaf yr adeiladau ar hyd y Stryd Fawr i fflatiau; gan wneud defnydd o ofodau gwag a darparu tai newydd a chreu mwy o weithgarwch yn y canol tu allan i oriau manwerthu craidd.
14.

Buddsoddi mewn ac adfer adeilad rhestredig Gwaith Argraffu Gwasg Gee hanesyddol, er mwyn darparu gofod aml-ddefnydd hyblyg newydd, gan gynnwys defnydd preswyl, masnachol neu gymunedol yng nghanol Dinbych.
15.

Mynediad at gefn y llyfrgell (Sgwâr y Neuadd) i fod yn ardal i gerddwyr yn unig er mwyn creu amgylchedd o ansawdd uchel a gofod sy'n fwy cyfeillgar i gerddwyr y gall fusnesau lleol gymryd mantais ohoni.
16.

Buddsoddi mewn, ac atgyfnerthu llwybrau treftadaeth yn Ninbych gyda chyfeirbyst cryfach, o fewn y Stryd Fawr, Bull Lane, Lôn Brombil, er mwyn cymell symudiadau rhwng Castell Dinbych a chanol y dref.
17.

Gwella mynediad i Gastell Dinbych trwy wella dyluniad y stryd, gan gynnwys gwaith blaenoriaethu cerddwyr ac ail-ddylunio priffyrdd ar hyd Bull Lane yn rhedeg o'r de i'r gogledd, gan ennill gofod ar gyfer parcio dynodedig ar y stryd a llwybrau diogel i gerddwyr. Bydd ail-ddylunio'r briffordd yn ymestyn hyd at St. Hilary's Terrace, lle bydd parth cyhoeddus yn cael ei ad-drefnu gan ddechrau gyda'r mannau prysur er mwyn helpu i reoli traffig o'r pwynt hwn ymlaen, gan ystyried patrymau stryd a nodweddion hanesyddol.
18.

Archwilio cyfleoedd o amgylch Llain y Capel trwy ddod â'r bwâu yn ôl i ddefnydd, wedi'i dargedu tuag at fusnesau newydd lleol, gan adennill rhan fach o'r stryd er mwyn creu gofod gorlifo bach.
19.

Cyflwyno croesfannau cerddwyr newydd i wella mynediad, blaenoriaeth a diogelwch cerddwyr, gan ymateb i'r llwybrau answyddogol ac archwilio'r opsiwn i leihau dominyddiaeth isadeiledd cerbydau. Mae cynlluniau ar gyfer Pwll y Grawys eisoes yn mynd rhagddynt i wella'r ardal.
20.

Creu gofod sy'n canolbwyntio mwy ar gerddwyr o flaen The Crown, rhwng Lôn Cefn a Sgwâr y Neuadd, trwy ail-ddylunio'r gofod er mwyn cyfyngu ar symudiad cerbydau; galluogi busnesau i orlifo allan i'r stryd a chreu gofod mwy priodol i fwynhau strwythurau hanesyddol cadarnhaol yn y lleoliad hwn.
21.

Gwella cyfeirbyst ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigwyddiadau lleol a gweithredu hyn gyda bwrdd gwybodaeth treftadaeth/tref ddwyieithog newydd ger Llyfrgell Dinbych. Ymgorffori gallu digidol i fyrddau hysbysu er myn gallu hyrwyddo digwyddiadau lleol yn well.
22.

Gwella'r parth cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr a Sgwâr y Neuadd i neud yr amgylchedd yn fwy deniadol ac amlygu'r bensaerniaeth hanesyddol gadarnhaol gan gyflwyno planhigion a thacluso. Ychwanegu mwy o seddi cymdeithasol i greu llefydd mwy deniadol i oedi ac eistedd.
23.

Gwella a buddsoddi mewn blaen siopau o ansawdd uchel cyson o fewn canol y dref er mwyn creu cynnig mwy deniadol ar gyfer busnesau lleol presennol, a gwella naws am le cyffredinol.
24.

Buddsoddi yn Neuadd y Dref er mwyn gwella rôl fel canolbwynt cymunedol aml-genhedlaeth, gan wella ei allu i gynnal digwyddiadau lleol a chyfleusterau cymunedol wedi'u targedu tuag at helpu defnyddwyr diamddiffyn.
25.

Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi yn y Crown i ddod a'r strwythur yn ôl i ddefnydd, gan helpu i gynnal yr adeilad hanesyddol a chyfrannu tuag at fywiogrwydd y dref.
26.


Mynegi'r Gymraeg a diwylliant Cymreig mewn celf gyhoeddus a chyfeirbyst o amgylch canol y dref.
27.

Gweithredu isadeiledd digidol newydd a manteisio ar y rhai presennol o fewn canol y dref er mwyn cynhyrchu data amser byw a lleol, a darparu Wi-Fi dibynadwy, am ddim, mewn mannau cyhoeddus megis Lôn Crown a'r Stryd Fawr er mwyn annog pobl i dreulio mwy o amser ynddynt a defnyddio rhagdudalen y rhwydwaith i hyrwyddo digwyddiadau neu fusnesau lleol.
28.

Archwilio cynllun gweithredu unedau gwag er mwyn helpu i adfywio unedau gwag yng nghanol y dref mewn lleoliadau blaengar, gan wella'r cynnig ac ansawdd canfyddedig y dref.



○ Prosiectau sydd eisoes o dan ystyriaeth
■ Dyheadau craidd a gefnogir



- Allwedd**
- Terfyn y Safle
 - Canol y Dref
 - Ffordd
 - Ardal i Gerddwyr
 - Cynnig i Ddilëu Ffordd
 - Cynnig i Ddilëu Safle Bws
 - Safle Bws Arfaethedig
 - Blaenoriaeth i Gerddwyr
 - Llwybr Teithio Llesol Arfaethedig
 - Parc
 - Prif Ardal y Prosiect
 - Adeilad Hanesyddol Allweddol
 - Adeilad Cymunedol Allweddol
 - Llwybr Cerbydau Gwell
 - Llwybr Cerddwyr Gwell
 - Porth Gwell
 - Lledu Palmentydd
 - Man Cyhoeddus
 - Prif Olygfeydd i'w Dal
 - Fforddhwyllo Gwell
 - Cyffordd-T Arfaethedig
 - Llwybr Teithio Llesol
 - Cyfle Adfywio yn y Dyfodol
 - Blaenoriaeth i Gerddwyr
 - Terfyn Datblygu / Ffin Datblygu
 - Terfyn Canol y Dref
 - Terfyn Cadwraeth

Strategaeth Lle a Rhestr Ymyraethau

Porth Dwyreiniol a Stryd y Dyffryn

29. Archwilio cyfleoedd i leihau graddfa isadeiledd cerbydau yng Nghyffordd Ffordd Ryan a Rhuthun ar ochr ddwyreiniol canol y dref i greu amgylchedd mwy deniadol a diogel ar gyfer cerddwyr, yn ogystal â synnwyr gwell o gyrraedd y dref.
30. Gwella Stryd y Dyffryn gyda chelfi stryd newydd megis meinciau, er mwyn gwneud y stryd yn fwy deniadol ar gyfer cerddwyr, a defnyddio newidiadau deunyddiau mewn cyffyrdd allweddol i hwyluso symudiadau croesi i gerddwyr a gostegu traffig yn naturiol. Dylid gosod meinciau er mwyn gwneud y mwyaf o'r golygfeydd cadarnhaol allan o'r stryd.
31. Creu strydoedd gwyrdd lle bo'n briodol gyda phlanhigion, gerddi glaw a choed ar hyd y stryd i ddarparu cysgod ac amgylchedd pleserus a fydd yn gwella estheteg gyffredinol a chefnogi busnesau lleol. Gweithio gyda grwpiau llawr gwlad lleol sy'n buddsoddi mewn cynnal a chadw a chyflwyno gwyrddni yn y dref wrth archwilio hyn.
32. Mynegi Cymraeg a diwylliant Cymreig mewn celf gyhoeddus a chyfeirbyst ar hyd Stryd y Dyffryn trwy arwyddion dwyieithog, themâu diwylliannol mewn celf gyhoeddus a'r defnydd o farddoniaeth a llenyddiaeth.
33. Buddsoddi yn y Parc Canol i gyflwyno mwy o gyfleusterau ac amwynderau er mwyn denu ystod eang o ddefnyddwyr, gan gynnwys offer ymarfero corff awyr agored, llwybr ffitrwydd, ardaloedd seddi cymdeithasol gyda darpariaeth gysgodol.
34. Darparu isadeiledd beicio newydd, sicrhau storfa ar hyd Stryd y Dyffryn i adeiladu ar gysylltiadau teithio llesol yn y dyfodol a chefnogi cysylltedd â Theatr Twm o'r Nant. Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio'r llinellau rheilffordd nad ydynt yn cael eu defnyddio i gyfrannu tuag at rwydwaith teithio llesol ehangach a darparu gorsaf atgyweirio beiciau, gan gynnwys pwmp, offer a stand ger y cyswllt teithio llesol trwy'r parc.
35. Archwilio sut all yr isadeiledd digidol newydd ar hyd Stryd y Dyffryn wella'r profiad i ymwelwyr yn Ninbych a dod a mwy o bobl i ganol y dref a'r atyniadau treftadaeth. Gall hyn gynnwys gweithredu Wi-Fi cyhoeddus, diogel a dibynadwy, a all ddarparu mynediad at wybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Hefyd, gall hysbysfwrdd digidol wedi'i leoli mewn lleoliad amlwg, ddarparu ymwelwyr gyda gwybodaeth leol a chynigion arbennig, gan wneud eu harhosiad yn fwy cyfleus a hwylus.
36. Gwella cysylltiadau i gerddwyr ar hyd Stryd y Dyffryn a'r ardaloedd cyfagos, gyda chysylltiadau gwell o'r gorllewin i'r dwyrain, i ysgolion a manwerthu, ac integreiddio gyda mentrau o'r gorffennol i'r dyfodol, wrth hyrwyddo cludiant cynaliadwy a lleihau allyriadau carbon.
37. Creu cyffyrdd blaenoriaeth i gerddwyr mewn cyffyrdd eilaidd, gan flaenoriaethu symudiadau cerddwyr ar hyd Stryd y Dyffryn a chreu stryd fwy deniadol.
38. Archwilio cynllun gweithredu unedau gwag er mwyn helpu i adfywio unedau gwag ar Stryd y Dyffryn mewn lleoliadau blaengar, gan wella'r cynnig ac ansawdd canfyddedig y dref.

- Prosiectau sydd eisoes o dan ystyriaeth
- Dyheadau craidd a gefnogir



Bwrdd Gwybodaeth Ddigidol



Gwyrddni ar hyd y stryd



Llwybrau Teithio Llesol Gwell



Isadeiledd beicio



Plannu blodau ar hyd y stryd

Denbigh Industrial Estate

Denbigh Leisure Centre

Allwedd

- Terfyn y Safle
- Ffordd
- Ardal Croesi i Gerddwyr
- Llwybr Teithio Llesol Arfaethedig
- Parc
- Adeilad Hanesyddol Allweddol
- Adeilad Cymunedol Allweddol
- Porth Gwell
- Lledu Palmentydd
- Prif Olygfeydd i'w Dal
- Fforddhwyllo Gwell
- Llwybr Teithio Llesol
- Cysylltiadau Gwell o'r Dwyrain i'r Gorllewin
- Terfyn Datblygu
- Terfyn Canol y Dref
- Terfyn Cadwraeth



Dadansoddiad o Ganol y Dref

Mae'r graff gwe pry cop yn dangos dau ddimensiwn o berfformiad Dinbych yn erbyn y 6 egwyddor creu lleoedd a nodir yn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae'r graff hwn yn darparu crynodeb ddefnyddio i ganfod meysydd lle mae'r dref yn tan berfformio a fydd yn llywio'r cynigion a dewisiadau datblygu. Mae'r sgoriau'n seiliedig ar y wybodaeth a gesglir a'r canfyddiadau a lunnir o'r dadansoddiad o ganol y dref. Mae'r canlynol yn darparu setiau meini prawf sydd wedi cael eu mabwysiadu asesu Dinbych:

Identity

- Hunaniaeth unigryw
- Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant
- Diogel a chroesawgar
- Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon

Symudiad

- Teithio Llesol wedi'i letya'n dda
- Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol
- Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus
- Blaenoriaethu pobl dros gerbydau

Pobl a Chymuned

- Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol
- Defnydd cryf o'r Gymraeg
- Hyrwyddo balchder cymunedol
- Mynediad da at gyfleusterau cymunedol

Parth Cyhoeddus

- Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel
- Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf
- Darparu gofodau cynhwysol i bawb
- Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda

Defnydd Cymysg


- Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol
- Canol tref bywiog
- Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol
- Economi dydd a nos cryf

Lleoliad

- Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach
- Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol
- Graddfa a dwysedd priodol
- Defnyddir tir yn effeithlon

Sgôr Sylfaenol:	
	Tan berfformio'n sylweddol yn erbyn egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
	Tan berfformio yn erbyn egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
	Bodloni'r egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
	Rhagori ar yr egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd
	Rhagori'n sylweddol ar yr egwyddorion a nodir yn y Canllaw Creu Lleoedd

Yn seiliedig ar ein harsylwadau, rydym wedi cyflawni adolygiad ansoddol a goddrychol o nodweddion creu lle Dinbych. Mae angen gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael gydag agweddau dynol a phrofiad na ellir ei gipio gan fetrigau meintiol yn unig. Mae creu lleoedd yn golygu creu mannau sy'n cyd-fynd â hunaniaeth pobl, eu hemosiynau a chyd-destun diwylliannol, gan olygu bod dadansoddiad goddrychol yn angenrheidiol i asesu ffactorau megis apêl weledol, synnwyr o berthyn ac ymgysylltiad cymunedol.



Egwyddorion Creu Lleoedd	Arsylwadau Allweddol	Sgôr
Hunaniaeth		18
1. Hunaniaeth unigryw	Buddsoddi i adnewyddu adeiladau hanesyddol. Bydd adfer tirnodau fel Gwesty'r Crown yn gwella treftadaeth gyfoethog Dinbych, gan greu treflun mwy apelgar ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr.	5
2. Synnwyr cryf o dreftadaeth a diwylliant	Gwella arwyddion a llwybrau treftadaeth. Bydd arwyddion dwyieithog Cymraeg a Saesneg yn annog pobl i archwilio'r safleoedd hanesyddol wrth ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.	4
3. Diogel a chroesawgar	Bydd gwella blaenoriaeth i gerddwyr trwy welliannau strydlun a chlodiant yn gwneud i'r ardal deimlo'n fwy diogel a chroesawgar i bawb.	4
4. Defnydd cryf o ddarlunio delweddau / adrodd straeon	Bydd ychwanegu murluniau lliwgar o hanes Dinbych ac arwyddion Cymraeg yn gwneud y dref yn fwy deniadol i ymwelwyr a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Dinbych.	5
Pobl a Chymuned		17
1. Cyfleoedd ar gyfer cydlyniant cymunedol	Bydd ail-gyflwyno marchnadoedd a gwyliau i ganol y dref, ynghyd â defnydd newydd i eiddo gwag ar gyfer tai, yn hybu nifer yr ymwelwyr ac yn adfywio'r ardal.	4
2. Defnydd cryf o'r Gymraeg	Bydd sicrhau bod Cymraeg yn cael ei gynnwys yn amlwg ar arwyddion ac mewn gwyliau yn dathlu treftadaeth ddiwylliannol y dref a meithrin synnwyr o hunaniaeth.	5
3. Hyrwyddo balchder cymunedol	Bydd ehangu ar lwyddiant gwyliau presennol, a chanolbwyntio ar dacluso'r dref ac adnewyddu adeiladau hanesyddol, yn gwneud Dinbych yn ffynhonnell o falchder ar gyfer y gymuned.	4
4. Mynediad da at gyfleusterau cymunedol	Bydd datblygu a gwella clwstrw o gyfleusterau hygyrch, megis y Llyfrgell yng nghanol y dref, yn denu mwy o ymwelwyr, annog defnydd cynyddol a hybu nifer yr ymwelwyr ymhellach.	4
Defnyddiau Cymysg		18
1. Darpariaeth ar gyfer cynulleidfa amrywiol	Bydd datblygu amwynderau, yn arbennig ar y Stryd Fawr sy'n gwasanaethu pobl leol ac ymwelwyr, yn creu canol dref fwy cynhwysol a bywiog.	5
2. Canol dref fywiog	Bydd dod a mwy o ddefnydd yn ôl i ganol y dref, yn ogystal â mwy o gartrefi o fewn canol y dref yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a lefel y gweithgarwch gan ei wneud yn gyrchfan mwy bywiog.	4
3. Mannau gwyrdd aml-swyddogaeth amrywiol	Bydd uwchraddio a hyrwyddo ardaloedd gwyrdd presennol, e.e. o amgylch y castell, ar gyfer digwyddiadau, cerdded cŵn a gweithgareddau chwaraeon yn cryfhau cynnig hamdden y dref.	4
4. Economi dydd a nos cryf	Bydd cyflwyno mwy o ddewisiadau bwyd a diod a chreu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau nos yn sefydlu canol y dref fel cyrchfan bywiog a chroesawgar.	5
Symudiad		17
1. Teithio Llesol wedi'i letya'n dda	Bydd datblygu llwybrau beicio dynodedig a gwella palmentydd yn gwneud y dref yn fwy hygyrch ar gyfer beicwyr a cherddwyr.	4
2. Llwybrau hydraidd sy'n adlewyrchu llwybrau answyddogol	Bydd sefydlu llwybrau newydd i'r castell yn annog mwy o ymwelwyr i archwilio'r tirnod hanesyddol hwn.	5
3. Cludiant cyhoeddus diogel a chyfleus	Bydd gwaith ar Gylchfan Pwll y Grawys yn lleihau tagfeydd a gwella ansawdd y mynediad i gludiant cyhoeddus.	5
4. Blaenoriaethu pobl dros gerbydau	Bydd cynyddu amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar gerddwyr yn creu amgylchedd pleserus, mwy diogel ar gyfer cerdded a siopa yn arbennig o amgylch Sgwâr y Goron.	3
Parth Cyhoeddus		15
1. Adeiladau a strydlun o ansawdd uchel	Mae celfi stryd gwell, megis meinciau, bocsys planhigion a biniau, yn gwneud y lleoliad yn fwy dymunol i dreulio amser.	5
2. Cyfeirbyst ac eglurdeb cryf	Bydd arwyddion clir a llwybrau diffiniedig yn helpu ymwelwyr i lywio'r ffordd yn haws, gan eu galluogi i archwilio mwy o atyniadau'r dref.	3
3. Darparu gofodau cynhwysol i bawb	Creu parthau i gerddwyr mewn ardaloedd penodol megis Sgwâr y Goron, i greu amgylchedd mwy pleserus, gyda chelfi stryd a goleuadau gwell.	3
4. Isadeiledd gwyrdd wedi'i integreiddio'n dda	Bydd cyflwyno mwy o blanhigion a gwella mannau gwyrdd presennol yn creu amgylchedd pleserus, naturiol sy'n gwella'r dref.	4
Lleoliad		16
1. Cysylltiad da ac yn cefnogi'r cyd-destun ehangach	Bydd uwchraddio'r prif byrth i Ddinbych a gwella cysylltiadau cludiant yn gwneud y dref yn fwy hygyrch a deniadol i ymwelwyr.	4
2. Cysylltiad gyda natur ar raddfeydd gwahanol	Bydd datblygu ardaloedd gwyrdd yn agos i'r dref a hyrwyddo eu defnydd yn denu pobl leol ac ymwelwyr i fwynhau'r amgylchedd naturiol.	4
3. Graddfa a dwysedd priodol	Cynnal cymeriad hanesyddol Dinbych wrth sicrhau bod canol y dref yn parhau i fod yn hawdd i bobl gerdded yno.	5
4. Defnydd tir effeithlon	Bydd defnyddio adeiladau gwag a gofodau nad ydynt yn cael llawer o ddefnydd, megis rhan o Faes Parcio Ward y Ffatri, yn creu cyfleoedd ar gyfer cyrchfan mwy bywiog a chroesawgar.	3

theurbanists

Caerdydd

Westgate House
11 Womanby Street
Cardiff, CF10 1BR

E-bost

info@theurbanists.net

www.theurbanists.net

Bryste

Studio 410, Generator Building
Finzels Reach
Bristol, BS1 6BX

Rhif ffôn:

029 2023 6133